Cyffredinol

Mae'r ffaith bod S4C wedi ymgymryd ag ymchwil trwyadl i anghenion plant Cymru trwy'r cyfryngau i'w chroesawu. Mae'r ymchwil a gomisiynwyd ar dueddiadau gwylio plant a phobl ifanc yn y Gymraeg yn hollbwysig nid yn unig i S4C ond i gyrff eraill sydd yn ymwneud â datblygu a chynllunio ieithyddol yng Nghymru.

Yr hyn mae'r papur ymgynghori eisoes wedi'i wneud ydy gorfodi rhanddalwyr allweddol – gan gynnwys Acen - i roi ffocws newydd ar y gynulleidfa dan 16 oed, yn Gymry Cymraeg ac yn ddysgwyr, ac i ystyried yr anghenion o'r newydd.

Byddai modd dadlau y byddai sefydlu a marchnata gwasanaeth newydd i blant ar S4C yn cadw'r ffocws newydd yn fyw ac yn arwain at drafod creadigol ac ystyrlon ar draws y bwrdd yn y dyfodol tymor byr. Gallai ddenu rhagor o randdalwyr – gan gynnwys rhanddalwyr masnachol. Mae dyfodol tymor hir unrhyw wasanaeth i blant a phobl ifanc, fodd bynnag, yn dibynnu ar natur, ansawdd a pherthnasedd y cynnwys.

Mae Acen yn cytuno gant y cant â rhesymau S4C dros fanteisio ar y gofod digidol newydd i osod pwyslais ar anghenion plant a phobl ifanc. Nid yw mor sicr, fodd bynnag, o'r pwyslais a roddir yn y ddogfen ymgynghori ar yr amserlen darlledu. Credwn fod ffactorau pwysicach i'w hystyried.

Yr Oriau Darlledu a'r Cynulleidfaoedd Targed

Amserlen Darlledu

Nodir isod sylwadau am nifer yr oriau darlledu.

Cynulleidfaoedd Targed

Byddai Acen yn dadlau bod angen edrych ar fwy na thair cynulleidfa. Mae profiad y cwmni yn yr ysgolion yn awgrymu'r gryf bod diddordebau a lefelau aeddfedrwydd plant yn newid yn sylweddol o gwmpas y saith oed. Gallai fod yn gamgymeriad felly i grwpio'r gynulleidfa 5-11 oed i gyd gyda'i gilydd.

Yn yr un ffordd mae angen ystyried y lefelau aeddfedrwydd gwahanol a'r meysydd diddordeb gwahanol sydd yn codi yn y gynulleidfa 11-16 oed.

Diddorol yw sylwi erbyn hyn bod arbenigwyr (Sonna et alia) yn sôn am sawl categori ac is-gategori - plant ifainc iawn (sydd yn gwylio yng nghwmni oedolion, plant hŷn neu dan arweiniad eraill), plant iau, plant sy'n pontio i'r arddegau (y 'tweens' 9-12 oed) a phobl ifanc yng nghanol eu harddegau. Mae angen i S4C gael cyngor seicolegwyr plant ynglŷn â hyn ond ein cyngor cyffredinol ni – yn enwedig yn yr oes ddigidol dargededig sydd yn datblygu – ydy cadw'r categoriau mor fach ag y bo'n ymarferol bosib er mwyn sicrhau perthnasedd i'r gynulleidfa.

Cytunwn yn llwyr â'r awgrym yn adran ymchwil y ddogfen ymgynghori bod angen edrych ar frandio a dulliau marchnata gwahanol ar gyfer y cynulleidfaoedd gwahanol.

Nodweddion Allweddol Gwasanaethau Plant S4C

Y Categoriau Ifancaf

Mae pryder cynyddol erbyn hyn am ddiffyg ffitrwydd plant ac am yr amser a dreulir gan y plant lleiaf o flaen sgriniau o fathau gwahanol. Mae problem yma yn syth. Ar y naill law, mae S4C, fel pob darlledwr, am weld cynnydd yn yr oriau gwylio. Ar y llaw arall, mae pwysau gwleidyddol a chymdeithasol i sicrhau bod plant yn fwy 'gweithredol' ac yn llai goddefol yn eu horiau hamdden.

Yr her enfawr i S4C ydy creu pont newydd rhwng y ddau angen trwy ddarparu profiadau gwylio a phrofiadau ar-lein sydd yn uniongyrchol gysylltiedig â gweithgareddau sydd yn gyfrwng i ddatblygu potensial plant ifainc yn feddyliol ac yn gorfforol. Mae hyn, o reidrwydd, yn golygu cydweithio ar raddfa fwy o lawer â theuluoedd ac asiantaethau yn gylchoedd, yn ysgolion, yn glybiau ac yn sefydliadau meddygol sydd yn rhan mor bwysig o'u bywyd. Mae'n rhaid i'r ddarpariaeth ar gyfer plant ar S4C fod yn ddeniadol, yn ddychmygus ac yn hwyl ond mae'n rhaid hefyd iddi fod yn 'iach'. Gallai fod cyfle yma i gydweithio'n uniongyrchol ag Adran Addysg y Cynulliad a'r Ymddiriedolaethau Iechyd i rannu costau ac arbenigedd.

Yn gysylltiedig â hyn mae cyfle, wrth ddatblygu ffyrdd newydd o ryngweithio â phlant a'r oedolion yn eu bywydau, i feddwl llawer iawn mwy yn nhermau sicrhau bod gwylwyr ifainc yn ymwneud â chymeriadau a phersonoliaethau yn uniongyrchol. Mae plant bob amser yn chwilio am raglenni penodol ar ôl gweld cymeriadau mewn sioe, pantomeim neu ffilm mewn sinema. Yn sydyn, mae elfen o berchnogaeth. Fyddai modd i S4C ffurfio partneriaeth â chwmniau mewn addysg a chwmniau drama lleol i ddod â mwy o'r cymeriadau yn fyw yn y cymunedau y tu hwnt i'r sgrîn.

Plant Mwy a Phobl Ifanc

Wrth i 'blant' dyfu'n hŷn mae'r her i S4C yn cynyddu. Yn raddol, mae'r gynulleidfa yn mynd yn fwy annibynnol ei barn ac yn fwy ymwybodol o'r hyn sydd ar gael yn rhyngwladol. Mae'r gystadleuaeth yn aruthrol – yn rhaglenni ac yn beiriannau marchnata. Eto, mae gan S4C fanteision amlwg.

1 Un sianel Gymraeg sydd. Mae gan y sianel honno iaith unigryw. Trwy hyrwyddo a phoblogeiddio delwedd yr iaith a'i diwylliant, mae S4C mewn sefyllfa arbennig i fanteisio ar y deyrngarwch i'r sianel sydd yn dod yn sgîl

hynny.

2 Mae S4C yn agos – yn sefydliadol ac yn ddaearyddol - at ei chynulleidfa. Mae felly mewn sefyllfa dda i gydweithio ag ysgolion, clybiau a mudiadau ieuenctid a chwaraeon, grwpiau cerddorol a ffasiwn a chwmniau sydd yn cynnig profiad gwaith i sicrhau profiadau a fyddai'n cael eu hadlewyrchu ar y sgrîn.

3 Mae gan Gymru nifer fawr o gwmniau erbyn hyn sydd yn arbenigo mewn cynnig profiadau ar y we. Mae adnawdd yma y dylai S4C fod yn manteisio arno wrth edrych ar y ddarpariaeth ar gyfer plant hŷn a phobl ifanc. Mae ymchwil diweddar Grunwald Associates yn dangos bod 71% o bobl ifanc rhwng 9 ac 17 oed yn defnyddio'r we o leiaf unwaith yr wythnos i 'rwydweithio'. Mae'r we erbyn hyn wedi mynd yn 'lle diogel' i drafod problemau, i ofyn am gefnogaeth, gwybodaeth a chyngor ac, yn gyffredinol, i 'ymarfer' bod yn oedolyn. Mae gêmau a gweithgareddau 'chwarae rôl' yn boblogaidd iawn. Yr her i S4C ydy cydweithio ag eraill i ddatblygu profiadau lle y byddai'r we a'r sgrîn yn cydweithio i greu profiadau holistig deniadol a fyddai'n sicrhau teyrngarwch y Cymry ifanc hyn.

Mae dau reswm arall dros ddatbygu gwasanaethau ar y we. Y cyntaf ydy'r rheswm masnachol. Mae ymchwil Grunwald Associates yn dangos bod 55 y cant o'r bobl ifanc yn arolwg y cwmni yn ystod y mis diwethaf wedi ymateb i weithgareddau a osodwyd gan hysbysebwyr ar y gwefannau – e.e. cwisiau a chystadlaethau. O'r bobl ifanc hyn, mae 90% wedi dweud y bydden nhw'n fodlon ymateb i hysbysebion a 45% wedi nodi y bydden nhw'n barod i glywed am 'nwyddau' arbenigol megis cyrsiau mewn colegau a chyfleoedd gyrfa. Gan fod S4C yn chwilio am refeniw newydd gallai hyn fod yn ateb. Mae'r ail reswm yn ymwneud â dawn greadigol. Mae pobl ifanc erbyn hyn yn treulio oriau ar 'MySpace' a gwefannau blogio eraill yn llunio dyddiaduron ac yn creu proffilau personol. Yn ôl Grunwald mae 20% yn diweddaru'u gwefannau personol bob dydd. Onid oes lle i S4C fanteisio ar yr egni creadigol yma?

Dysgwyr

Mae'r pwyntiau a wnaed uchod yr un mor berthnasol pan ddeir i drafod dysgwyr. Byddai cynnydd yn y rhyngweithio ymarferol rhwng y sgrîn a phrofiadau yn y cymunedau o fantais aruthrol i ddysgwyr o bob oedran gan y byddai'n cynyddu'r cyfleoedd goddefol a gweithredol i ddefnyddio'r Gymraeg yn ystyrlon. Gallai hyn arwain at gynnydd yn y sgiliau a fydd gan y plant cyn gadael yr ysgolion yn 16 neu'n 18 oed.

Gallai cydweithio rhwng dysgwyr a Chymry ifainc iaith gyntaf ar brosiectau s4c-ganolog fod yn fodd i ddechrau dileu'r hen ffiniau rhwng y ddwy gynulleidfa.

Mae gan ddysgwyr, fodd bynnag, anghenion arbennig.gan eu bod yn dechrau'n is ar y continiwm iaith ac angen cyngor ac arweiniad wrth symud yn uwch.

Wrth drafod y plant lleiaf, mae angen edrych ar ffyrdd arbennig o hyrwyddo caffael iaith – ar y sgrîn a'r tu hwnt i'r sgrîn. Mae adnoddau aml-gyfrwng eisoes wedi profi'n boblogaidd ymhlith rhieni ac athrawon. Mae cyfle i ddatblygu'r maes hwn ymhellach – o bosib trwy gyfrwng chwaer-wefannau i www.dysguars4c.co.uk.

Yn yr ysgolion mae mawr angen i S4C fod yn rhan o ymgyrch i ddatblygu potensial 'go iawn' y Cwricwlwm Cenedlaethol (Cymraeg Ail Iaith). Credwn fod cyfle i gydweithio â Llywodraeth Cenedlaethol Cymru i ddatblygu profiadau ar y sgrîn ac ar y we i gynorthwyo'r athrawon a'r bobl ifanc sydd yn gweithredu ar y Cyfnod Sylfaen newydd, Cyfnodau Allweddol 1-4 a'r cyfnod pontio i'r gymuned. Mae lle hefyd i ddatblygu rhaglenni a gweithgareddau i hyrwyddo'r Cwricwlwm Cymreig yn yr ysgolion.

Iaith y Gwasanaeth

Credwn y dylai natur ac ansawdd iaith y gwasanaeth newydd fod yn ystwyth, yn gyfoes ac yn addas ar gyfer y pynciau dan sylw. Dylai hefyd, fodd bynnag, fod yn rhywiog ac yn 'gywir'.. Mae cyfle yma i ddylanwadu mewn ffordd gadarnhaol ar sgiliau iaith pobl ifanc nad ydynt yn clywed Cymraeg naturiol yn gyson ac nad ydynt felly yn gallu dibynnu ar y 'glust' i ddweud a yw patrymau'n gywir.

Anghenion Arbennig

Hyderwn y bydd y gwasanaeth newydd yn rhoi sylw arbennig i anghenion plant ag anghenion arbennig ac yn sicrhau portreadu plant ag anghenion arbennig mewn ffordd gadarnhaol gan bwysleisio'u cyfraniad gwerthfawr i gymdeithas.

Crynodeb

I grynhoi, y prif bwyntiau yr hoffem eu gwneud ydy:

1. Bod cyfle i S4C ddefnyddio'r gofod digidol newydd i ddarparu gwasanaeth arbennig iawn i bobl ifanc yng Nghymru – yn Gymry Cymraeg iaith gyntaf ac yn ddysgwyr
2. Bod angen targedu'n ofalus a bod hyn yn golygu ail edrych ar y cynulleidfaoedd a awgrymwyd yn y ddogfen ymgynghori
3. Bod angen ystyried rôl newydd i S4C yn ganolbwynt i ystod eang o brofiadau a gynigir i Gymry ifainc a dysgwyr a bod hynny'n golygu datblygu partneriaethau newydd
4. Bod angen ystyried ffyrdd newydd o fanteisio ar ddawn greadigol pobl ifanc fel eu bod yn cyfrannu'n uniongyrchol at lwyddiant y sianel.
5. Bod cyfle i ystyried, ag eraill, anghenion arbennig dysgwyr y Gymraeg mewn perthynas â'r continiwm iaith a'r cwricwlwm cenedlaethol.

Elen Rhys
Cwmni Acen
Gorffennaf 2007